
# Y system rheoleiddio bwyd

Mae'r system fwyd yn gymhleth ac mae'r broses o'i rheoleiddio yn cynnwys sawl corff.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae ganddi wahanol gyfrifoldebau polisi o fewn y gwledydd hyn.

Safonau Bwyd yr Alban yw adran anweinidogol Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd, safonau bwyd, maeth, labelu bwyd, rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid ac arolygu cig yn yr Alban.




## Ein meysydd cyfrifoldeb polisi

Ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:

- Diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid
- Labelu diogelwch bwyd gan gynnwys labelu alergenau

Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon:

- Safonau cyfansoddiad a labelu bwyd

Yng Ngogledd Iwerddon yn unig:

- Safonau maeth a labelu
- Iechyd a gwyliadwriath deietegol

### Meysydd cyfrifoldeb polisi eraill

Llywodraeth Cymru: Safonau maeth, labelu bwyd maeth yng Nghymru

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Labelu bwyd arall (yn cynnwys safonau cyfansoddiad, gwlad tarddiad) yn Lloegr

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Safonau maeth, labelu bwyd maeth yn Lloegr

# Pwy sy'n gorfodi rheolaethau bwyd?

## Ar ran yr ASB

Mae **Arolygwyr Hylendid Cig** a **Milfeddygon Swyddogol** yn cynnal gwiriadau hylendid, gwiriadau dogfennol, a gwiriadau ffisegol ac yn cymryd samplau o gynhyrchwyr cig cymeradwy (gan gynnwys lladd-dai a ffatrïoedd torri).

Mae **Milfeddygon Cymwys** yn cynnal gwiriadau ar gynhyrchion anifeiliaid ac yn cynnal gwiriadau lles anifeiliaid. Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) sy'n gyfrifol am gyflawni gweithrediadau cig ar ran yr ASB yng Ngogledd Iwerddon.

Mae **Arolygwyr Safonau Gwin** yn cynnal gwiriadau ar ddilysrwydd, ansawdd, dulliau labelu ac olrheiniadwyedd gwinoedd, ac yn rhoi arweiniad a chymorth i'r rheiny sy'n tyfu, cynhyrchu ac yn masnachu gwin.

Mae **Arolygwyr Hylendid Llaeth** yn arolygu safleoedd cynhyrchu cynradd, yn gwirio dulliau cynhyrchu llaeth amrwd hylifol, llaeth buwch i'w yfed yn amrwd a llaeth yfed amrwd, ac yn hyrwyddo'r arferion hylendid gorau ar yr un pryd.

# Cynnal rheolaethau ar fwyd a fewnforir

O ran cynnal rheolaethau ar fwyd a fewnforir, awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) sy'n gyfrifol yng Nghymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd phorthladdoedd sy'n gyfrifol yn Lloegr, ac awdurdodau lleol a DAERA sy'n gyfrifol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae **Swyddogion Iechyd Porthladdoedd** yn cynnal gwiriadau dogfennol ar sail risg, gwiriadau adnabod, gwiriadau corfforol, ac yn cymryd samplau o fewnforion bwyd.

Mae **Milfeddygon Swyddogol** ac **Arolygwyr Pysgod Swyddogol** yn cynnal gwiriadau ar gynhyrchion anifeiliaid.

# Gwaith gweithredu awdurdodau lleol

Mae **Swyddogion Diogelwch Bwyd** yn cynnal rheolaethau swyddogol ar ddiogelwch a hylendid bwyd. Maent yn arolygu safleoedd i sicrhau bod bwyd yn cael ei storio a'i baratoi'n ddiogel.

Mae **Swyddogion Safonau Bwyd** yn sicrhau bod bwyd yn bodloni safonau diogelwch, safonau cyfansoddiad a safonau labelu maeth (er enghraifft, labelu alergenau, dyddiadau defnyddio erbyn, gwybodaeth am faeth a chyfansoddiad).

Ymhlith y busnesau bwyd y mae awdurdodau lleol yn eu rheoleiddio mae cynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd, sefydliadau arlwyo, busnesau tecawê a dosbarthu bwyd, manwerthwyr a sefydliadau llaeth, cig a physgod cymeradwy.

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cynnal rheolaethau ar **fwyd anifeiliaid** yng Nghymru ac yn Lloegr, a DAERA sy'n gyfrifol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r ASB ac awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd i gynnal rheolaethau swyddogol ar **bysgod cregyn**.

## Cyfrifoldeb busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid

O dan **reoliadau bwyd a bwyd anifeiliaid y DU**, cyfrifoldeb busnesau bwyd yw sicrhau bod yr holl fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael eu rhoi ar y farchnad yn ddiogel, eu bod o'r ansawdd y byddai defnyddwyr yn ei ddisgwyl ac nad ydynt yn cael eu labelu mewn ffordd ffug neu gamarweiniol.